



EICH RHESTR WIRIO YNNI CARTREF



Gweithredu dros Gartrefi Cynnes
Action for Warm Homes

Dilynwch y camau hyn i'ch helpu i reoli eich biliau ynni a chadw eich cartref yn gynnes ac yn ddiogel y gaeaf hwn.

Cysylltu â'ch cyflenwr ynni i weld a ydych ar y tariff rhataf neu i drafod dyled ynni

Os nad ydych yn siŵr pa dariff ynni rydych chi arno, cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld a ydych ar eu tariff rhataf. Os ydych yn poeni eich bod yn mynd i ddyled ynni, cysylltwch â'ch cyflenwr ynni cyn gynted â phosib. Os byddant yn gwybod bod gennych chi broblem, mae'n ofynnol iddynt gydweithio â chi i ddod o hyd i ateb. Er enghraifft, gallan nhw helpu chi i sefydlu cynllun ad-daliadau fforddiadwy a chymryd unrhyw daliad mewn fformat sy'n addas i chi.

Gallwch hefyd gael cyngor ar ddyledion ynni gan **Linell Gymorth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth** ar 0808 223 1133 (18001 0808 223 1133 i ddefnyddwyr ffôn testun) neu eich **Cyngor ar Bopeth** lleol (mae'n bosib y codir tâl am yr alwad).

Mwyafu eich incwm

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hawlio'r budd-daliadau cywir. Gallai hyn gynyddu eich incwm yn ogystal â'ch gwneud yn gymwys i gael mathau eraill o gymorth. Cymerwch gyngor gan eich Cyngor ar Bopeth lleol neu ffoniwch Linell Gymorth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar 0808 223 1133 (18001 0808 223 1133 i ddefnyddwyr ffôn testun (mae'n bosib y codir tâl am yr alwad) neu ewch i www.gov.uk/browse/benefits.

Gwirio a allwch chi dderbyn unrhyw ostyngiadau neu daliadau ynni

Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld a oes gennych hawl i **Ostyngiad Cartrefi Cynnes**. Mae'n well gwneud hyn tua mis Hydref bob blwyddyn (fodd bynnag mae rhai cyflenwyr yn agor eu cynlluniau yn gynharach yn y flwyddyn). Gostyngiad o £140 ar filiau trydan ar gyfer cyfnod y gaeaf yw hwn.

Dylai'r rhai sy'n derbyn yr elfen **Credyd Gwarant** o **Gredyd Pensiwn** gael y gostyngiad yn awtomatig. Gall cyflenwyr ynni gynnig y gostyngiad i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed eraill sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso felly mae'n werth gwirio.

Os cawsoch eich geni ar neu cyn dyddiad penodol (mae'r dyddiad hwn yn newid bob blwyddyn ond ar hyn o bryd mae'n 26 Medi 1955) gallech gael rhwng £100 a £300 i'ch helpu i dalu eich biliau gwresogi. Gelwir hyn yn **Daliad Tanwydd Gaeaf**. Fe'i telir yn awtomatig rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr os ydych wedi hawlio o'r blaen neu'n derbyn rhai budd-daliadau eraill. Bydd angen i eraill wneud cais amdano. Ffoniwch y **Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf** ar 0800 7310160. Ar ben hynny, gallai rhai aelwydydd fod yn gymwys i gael **Taliad Tywydd Oer** o £25 ym mhob wythnos gymwys. Telir hyn yn awtomatig i'r rhai sydd ar fudd-daliadau penodol pan gofnodir y tymheredd cyfartalog yn eu hardal fel, neu pan ragolygir y bydd, sero gradd Celsius neu is am saith diwrnod yn olynol. Fe gewch £25 am bob cyfnod o saith diwrnod o dywydd oer iawn rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

Cael cymorth mewn argyfwng

Lansiwyd y **Gronfa Cymorth i Gartrefi** gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2021 i gefnogi aelwydydd a allai ei chael hi'n anodd cadw'n gynnes y gaeaf hwn. Yn Lloegr, mae'n helpu gyda chost hanfodion (e.e. ynni, dillad, bwyd), ac mae'r arian yn cael ei ddyrannu gan eich awdurdod lleol. Yng Nghymru, cyhoeddwyd **Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf** ym mis Tachwedd 2021. Os ydych yn derbyn budd-daliadau oedran gweithio sy'n seiliedig ar brawf modd, gallwch gael taliad untro o £100 i helpu tuag at eich biliau ynni y gaeaf hwn, waeth p'un a ydych yn talu â mesurydd credyd neu ragdal. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais os ydych yn gymwys. Yn ogystal, mae taliadau brys ar gael o dan **Gronfa Cymorth Dewisol (DAF)** Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymorth i roi credyd ar fesuryddion rhagdalau nwy a thrydan, neu olew ac LPG. Mae grantiau bach i wneud mân atgyweiriadau i foeleri gwres canolog ar gael rhwng mis Hydref a mis Mawrth hefyd. Ffoniwch DAF ar 0800 859 5924 neu ewch i <https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf>

Cymryd darlleniad mesurydd

Os byddwch yn cymryd darlleniadau mesurydd rheolaidd a'u hanfon at eich darparwr ynni, bydd hyn yn eich helpu i gadw llygad ar eich defnydd o ynni a chadw eich biliau'n gywir. Os ydych chi'n derbyn bil a chanddo 'E' wedi'i farcio yn erbyn y darlleniad mesurydd, yna mae hyn yn golygu ei fod yn amcangyfrif gan eich cyflenwr. Mae'n bosib nad ydych yn talu'r swm cywir am eich ynni. Gall cael sawl darlleniad amcangyfrifedig arwain weithiau at filiau mawr, annisgwyl. Darllenir mesuryddion o'r chwith i'r dde. Peidiwch â chynnwys unrhyw rifau sy'n goch neu mewn blwch coch. Gallwch hefyd ofyn i'ch cyflenwr a allwch chi gael gosodiad mesurydd clyfar. Mae hyn yn golygu y gall eich cyflenwr gymryd darlleniadau awtomatig a darparu bil mwy cywir. Os ydych ar ragdal, efallai y bydd yn fwy cyfleus i chi wrth ychwanegu credyd. Os yw eich mesurydd wedi torri neu'n ddiffygiol, cysylltwch â'ch cyflenwr ynni neu'ch landlord, y mae'n ofynnol iddo ei drwsio am ddim. Mae'n bosib y caiff tâl ei godi arnoch os byddant yn canfod nad yw'r mesurydd yn ddiffygiol.

Toriadau yn y cyflenwad a'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR)

Os byddwch yn profi toriad yn y cyflenwad, ffoniwch **y llinell ffôn toriad cyflenwad genedlaethol** ar 105. Os byddwch yn cofrestru ar y **Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth** gallwch gael cymorth ychwanegol gan eich cyflenwr ynni yn ogystal â chan weithredwyr eich rhwydwaith dosbarthu (y cwmnïau sy'n gweithredu ac yn cynnal y pibellau a'r gwifrau nwy a thrydan) yn ystod toriad yn y cyflenwad neu'n gyffredinol. Gallwch dderbyn y gwasanaethau sydd ar gael os ydych:

- o oedran pensiynadwy
- yn anabl neu'n dioddef o salwch cronig
- â chyflwr meddygol hirdymor
- â nam ar y clyw neu'r golwg neu anghenion cyfathrebu ychwanegol
- mewn sefyllfa fregus gan gynnwys rhai cyflyrau iechyd meddwl, anaf corfforol yn ogystal â sefyllfaoedd dros dro o fod yn agored i niwed
- â phlentyn dan 5 oed sy'n byw gyda chi

Mae ystod eang o gymorth ar gael gan gynnwys:

- gwybodaeth a ddarperir mewn fformatau hygyrch
- rhybudd ymlaen llaw am doriadau arfaethedig yn y cyflenwad
- cynllun adnabod, diogelu cyfrinair a chynllun enwebai ar gyfer aelod o'r teulu neu ofalwr ar ran y cwsmer
- cymorth blaenoriaethol mewn argyfwng
- trefniadau i sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn ymarferol i'r cwsmer ddefnyddio mesurydd rhagdal
- gwasanaethau darllen mesuryddion

Mae'r holl gyflenwyr ynni a gweithredwyr rhwydwaith yn cadw eu cofrestrau eu hunain ond gyda'ch caniatâd chi gallant rannu gwybodaeth â'i gilydd, felly nid oes rhaid i chi gofrestru ar wahân ar gyfer y ddau. Cysylltwch â'ch cyflenwr nwy/trydan a/ neu weithredwr rhwydwaith dosbarthu i gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru. Mae manylion gweithredwr eich rhwydwaith dosbarthu i'w gweld ar eich bil ynni.

Beth i'w wneud os bydd eich cyflenwr ynni yn mynd allan o fusnes

Os bydd eich cyflenwr ynni yn mynd allan o fusnes, bydd y rheoleiddiwr nwy a thrydan, Ofgem, yn eich symud yn awtomatig i gyflenwr newydd. Dylai hyn ddigwydd o fewn ychydig wythnosau. Os oes gennych un, peidiwch â chanslo eich Debyd Uniongyrchol, peidiwch â cheisio newid tariff neu gyflenwr nes bod eich cyfrif yn cael ei symud i'r cyflenwr newydd. Efallai y byddwch yn ei chael yn fwy anodd dod o hyd i unrhyw arian sy'n ddyledus i chi os byddwch yn newid cyn i hyn ddigwydd. Arhoswch i'ch cyflenwr newydd gysylltu â chi. Cyn i'ch cyflenwr newydd gysylltu â chi, dylech chi:


- gymryd darlleniadau mesurydd - mae'n ddefnyddiol tynnu llun o'ch darlleniadau mesurydd hefyd
- cadw unrhyw hen filiau sydd gennych - gall y rhain helpu i brofi eich hanes talu, balans credyd neu ddyled
- lawrlwytho unrhyw filiau o'ch ap os oes gennych gyfrif ar-lein yn unig
- gwneud nodyn o falans eich cyfrif - fe welwch hyn ar eich cyfriflen ynni ddiweddaraf

Dylai eich cyflenwr newydd esbonio beth fydd yn digwydd gyda'ch cyfrif. Byddant yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthy ch pryd y bydd eich cyfrif newydd wedi'i sefydlu. Dylai hyn ddigwydd o fewn ychydig wythnosau. Dylech gysylltu â'ch cyflenwr newydd os na fyddwch yn clywed ganddynt o fewn pythefnos. Bydd eich cyflenwr newydd hefyd yn eich rhoi ar dariff newydd - efallai y bydd yn ddrutach na'ch hen un. Gofynnwch iddynt ai dyna eu bargaen rataf. Os nad ydynt yn cysylltu â chi, dylech gysylltu â nhw i sicrhau eich bod ar y tariff gorau i chi. Gallwch chi newid os nad ydych yn hapus gyda'ch cyflenwr neu dariff newydd. Gallwch wneud hyn heb dalu ffi ymadael. I gael mwy o wybodaeth ewch i: t: <https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/energy/energy-supply/problems-with-your-energy-supply/check-whos-taken-over-your-energy-supply/>

Cadw'n Ddiogel

Mae carbon monocsid yn nwy marwol na ellir ei weld, ei arogl na'i flasau. Arwyddion cyffredin carbon monocsid yw fflamau nwy sy'n llosgi oren neu felyn yn hytrach na'r glas arferol, staeniau huddygl ar neu uwchben yr offer a/neu danau glo neu goediach sy'n llosgi'n araf neu'n mynd allan. Gall Carbon Monocsid gael ei gynhyrchu gan offer llosgi tanwydd diffygiol yn eich cartref fel boeler nwy neu dân/gwresogydd nwy a awyrrir yn wael. Gwnewch yn siŵr bod offer llosgi tanwydd fel tanau, boeleri a ffyrnau nwy yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan beiriannydd cymwys. Ar gyfer offer nwy, mae'n rhaid i'r peiriannydd fod ar y Gofrestr Diogelwch Nwy (**Gas Safe**). Argymhellir hefyd bod peirianwyr sy'n gweithio ar offer olew neu danwydd solet wedi'u cofrestru gyda chorff masnach fel OFTEC neu HETAS. Gofynnwch i'ch peiriannydd am brawf o'i gofrestriad. Gallwch hefyd osod larwm Carbon Monocsid clywadwy. Gellir prynu'r rhain o siopau crefft cartref, archfarchnadoedd a siopau'r stryd fawr; maent yn costio tua £15 a gallent achub bywydau.

Os ydych yn rhentu'ch cartref, yna yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i landlordiaid gynnal archwiliad diogelwch blyneddol o offer nwy yn y cartref a rhoi Tystysgrif Diogelwch Nwy i chi. Os nad ydych eisoes wedi gweld y dystysgrif, gofynnwch i'ch landlord am gopi. Os ydych yn berchennog cartref ac ar fudd-daliadau penodol efallai y byddwch yn avmwys i dael awiriad diogelwch nwy blvnvddol



am ddim. Cysylltwch â'ch cyflenwr nwy i wirio eich cymhwysedd a gofyn am gofrestru ar eu **Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth**. Os byddwch chi'n aroglu nwy, ffoniwch y **Llinell Gymorth Argyfwng Nwy 24 awr** ar 0800 111 999. I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch carbon monocsid ewch i www.co-bealarmed.co.uk. Os ydych yn hŷn neu fod gennyhych anabledau, efallai y byddai'n werth gwirio gyda'ch gwasanaeth tân lleol a allant roi cyngor ac offer atal tân i chi.

Osgoi lleithder a chyddwysiad

Pan fydd yn oer, gall cyddwysiad fod yn broblem fawr mewn llawer o gartrefi. Rhowch gynnig ar y canlynol:

- Cadwch y tymheredd ym mhob ystafell uwchben 15°C mewn tywydd oerach. Bydd hyn yn lleihau cyddwysiad sy'n ffurfio ar waliau allanol
- Insiwleiddiwch eich cartref (gweler isod)
- Cadwch eich cartref wedi'i awyru. Gwnewch yn siŵr nad yw fentiau a brics aer wedi'u gorchuddio na'u rhwystro
- Ceisiwch beidio â sychu'r golch yn y tŷ. Os ydych chi'n gwneud hynny, defnyddiwch rhesel awyru a pheidiwch â sychu dillad ar reiddiaduron. Bydd agor ffenestri ychydig yn caniatáu i leithder ddianc ond byddwch yn effro i ddiogelwch
- Agorwch fentiau bach y ffenestri yn ystod y dydd neu wrth fynd allan
- Sychwch ffenestri/drychau/teils/cawod gyda chlwytyn amsugol

Agorwch ffenestri ar ôl cael bath neu ymolchi a'u gadael ar agor am gyfnod byr er mwyn i'r stêm fynd allan os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Gwneud eich cartref yn effeithlon o ran ynni

Gall atal drafftiau fod yn ffordd rad o wneud eich cartref yn gynhesach. Mae cynhyrchion gwrth-ddrafftiau ar gael mewn storfeydd crefft cartref. Caewch y llenni gyda'r hwyr i gadw'r gwres i mewn a defnyddiwch haen thermol o dan garpedi. Gall inswleiddio lloffydd a waliau ceudod hefyd wneud gwahaniaeth mawr i filiau a chysur, yn ogystal â newid hen foeleri aneffeithlon. Efallai y byddwch yn gymwys i gael mesurau inswleiddio neu wresogi am ddim neu am bris gostyngol. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i weld a ydych yn gymwys ar gyfer y **'Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO)'** neu â'ch cyngor lleol neu Gyngor ar Bopeth a gofynnwch am unrhyw gynlluniau lleol sy'n gweithredu yn eich ardal. Os ydych yn rhentu eich cartref, yna yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i landlordiaid sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn addas i fyw ynddo. Os ydych yn poeni nad yw eich llety rhent preifat yn ddiogel neu'n addas i fyw ynddo, cysylltwch â thîm lechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol a all asesu'r eiddo o ran peryglon iechyd a diogelwch a mynnu i'ch landlord wneud gwelliannau gyda'u harian eu hunain. Yng Nghymru, mae **cynllun Nest** Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig cyngor diduedd am ddim ac, os ydych chi'n gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim fel boeler newydd, gwres canolog neu inswleiddio. Ffoniwch Nest ar 0808 808 2244.



TALIADAU GALWADAU

Gall fod tâl am ffonio llinellau cymorth a gwasanaethau eraill. Mae rhifau 0800 a 0808 am ddim o linellau tir a ffonau symudol. Mae cyfraddau safonol yn berthnasol ar gyfer rhifau 01, 02 a 03 (fel arfer 9c-13c y funud o linellau tir a 3c-55c o ffonau symudol gan ddibynnu ar eich rhwydwaith), ond maent fel arfer wedi'u cynnwys mewn pecynnau galwadau am ddim. Gweler mwy o wybodaeth yn www.gov.uk/call-charge

nea.org.uk/advice

Elusen annibynnol yw NEA, Rhif cofrestru 290511.
Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rh. 1853927.